"Y mae teyrnas nefoedd," meddai, "yn debyg i frenin, a drefnodd wledd briodas i'w fab."
(Mathew 22:2)

Dyma Iesu'n defnyddio darlun hyfryd o wledd briodas i gyfleu'r gwahoddiad a'r fraint o berthyn i deyrnas nefoedd, a'r gost uchel o wrthod y gwahoddiad hwnnw.

Gwledd briodas

Mae pob un ohonom yn hoffi gwledd briodas. Mae'n achlysur dedwydd i ddathlu cwlwm cariadus dau berson. Mae priodas frenhinol yn achlysur arbennig iawn. Mae'r darlun o wledd yn cyfleu digonedd o'r danteithion gorau sydd ar gael. Ac mae hynny'n ddarlun o'r bendithion sydd i ni yng Nghrist. Yn *Rhufeiniaid 5:1-11* mae'r apostol Paul yn rhestru rhai o'r bendithion hyn:

Ein cyfiawnhau trwy ffydd, sef ein bod yn gyfiawn yng ngolwg Duw trwy ffydd ym mywyd ac aberth iawnol Crist. **Heddwch â Duw;** os ydym yn iawn yng ngolwg Duw, does dim byd rhyngom ac Ef. **Gras,** sef rhodd anhaeddiannol**,** ac mae hynny'n golygu bod y Cristion yn derbyn beth mae Iesu Grist yn ei haeddu. **Gobaith y gogoniant,** sef y gobaith sicr y cawn gyfranogi yng ngogoniant Duw yn y pendraw. **Gorfoledd mewn gorthrymder,** sef y gallu i lawenhau mewn anawsterau, oherwydd bod Duw yn ein gogoneddu a'n sancteiddio trwy anawsterau. **Tywalltiad cariad,** sef yr Ysbryd Glân yn ein boddi yng nghariad Duw; cariad at bechadur, a chariad i orffen y gwaith o'i ogoneddu.

Mae'r thema o briodas Crist â'i bobl yn rhedeg trwy'r Ysgrythur. Mae'n amlwg bod Salm 45 yn Salm Feseianaidd; mae'r proffwydi yn dweud bod yr Arglwydd wedi dyweddïo gydag Israel: **"Cofiaf di ….. am dy serch yn ddyweddi"** (Jer. 2:2); ac mae llyfr y Datguddiad yn sôn am wynfyd y gwahoddiad i **"wledd briodas yr Oen"** (Dat. 19:9).

Gwahoddiad

Byddai derbyn gwahoddiad i wledd felly yn fraint aruthrol. Ac mae hyn yn cyfleu y fraint o gael perthyn i deyrnas Dduw trwy ffydd yn y Meseia, sef Iesu Grist. Ond roedd y gwahoddedigion cyntaf yn dirmygu ac yn bychanu braint y gwahoddiad. Yr Iddewon oedd y rhain, a wrthododd y proffwydi a'r Mab ei hun, wrth ei draddodi i'w groeshoelio. Y lleill a dderbyniodd wahoddiad oedd y Cenhedloedd, a hefyd y casglwyr trethi a'r pechaduriaid.

Ac wrth gymhwyso hyn i'n dyddiau ni, gallem ddweud mai pobl o gefndir crefyddol yw'r gwahoddedigion cyntaf i wledd yr Efengyl, ond os ydyn nhw yn gwrthod, mae cynnig i eraill o hyd. Ein gwaith ni fel Cristnogion yw ymestyn y

gwahoddiad mor eang â phosib, beth bynnag yw ymateb pobl.

Mae'n bwysig i ni gofio, mewn dyddiau pan mae llawer yn dangos ychydig o ddiddordeb yn y gwahoddiad at Dduw trwy Grist, mai ein braint ni yw parhau i wahodd pawb o bob math, gan ddisgwyl y bydd rhai yn derbyn y gwahoddiad yn ddiolchgar.

Gwisg

Ar ôl i'r rhai a dderbyniodd y gwahoddiad ddod i mewn, yr oedd y neuadd yn llawn. Yna daeth y brenin i edrych ar y gwesteion. Mae hwn yn ddarlun o Ddydd y Farn, a Duw yn edrych ar y rhai sydd wedi proffesu ffydd yn Iesu Grist. Beth mae Duw yn ei weld ynom fydd yn cyfrif yn y pendraw. Gallwn dwyllo ein gilydd, ond does dim twyllo na chuddio rhag golwg treiddgar yr Hollwybodol Dduw.

Mae'r brenin yn gweld dyn heb wisg briodas addas. Dywedodd Awstin Sant fod y wisg wedi ei chynnig gan weision y brenin o flaen llaw, a bod y person yma wedi gwrthod y cynnig, gan dybio bod ei wisg ei hun y ddigon da. Mae tystiolaeth ychydig yn ddiweddarach nag amser y Beibl sy'n sôn am berson oedd i ddod i bresenoldeb brenin yn y Dwyrain yn gorfod gwisgo mantell fyddai wedi ei hanfon iddo ymlaen llaw.

Mae hyn yn ddarlun gwych o'r pechadur yn cael gwahoddiad i wledd yr Oen trwy gyfiawnder Iesu Grist. Mae cyfiawnder Duw yng Nghrist fel mantell yn cael ei rhoi i ni trwy ffydd yn ein Gwaredwr bendigedig. Mae hyn yn cymharu â'r disgrifiad o saint y nef yn Datguddiad 7:14: **"y maent wedi golchi eu mentyll a'u cannu yng ngwaed yr Oen."** Ac mae adlais o'r un gwirionedd yn emyn Roger Edwards:

"fy ngwisgo â'i gyfiawnder
yn hardd gerbron y Tad."

Caiff y person heb wisg ei fwrw i'r tywyllwch eithaf, sy'n ddarlun o uffern, nid yn unig am ei fod yn annheilwng, ond yn arbennig am iddo wrthod y wisg briodas. Mae hynny'n dweud wrthym fod y gost yn uchel o wrthod Efengyl Crist, a gwrthod y gwahoddiad i wledd yr Oen.

Ydy'r darllenydd wedi derbyn y gwahoddiad? Beth am wneud hynny heddiw trwy gofleidio Crist fel Gwaredwr, a mentro arno fel y bont at Dduw?